

Cofion

- Cydymdeimlwn heddiw gydag Eric Edwards (Saron) a'r teulu yn eu profedigaeth yn ystod yr wythnos. Parhawn hefyd i gofio am eraill o'n plith sy'n galaru am eu hanwyliaid. Bydded i'r Arglwydd eich cysuro â'i ras ac â'i bresenoldeb hyfryd.
- Anfonwn ein cofion hefyd at Elfed Davies (Saron) sy'n parhau yn Ysbyty Glan Clwyd, ac at William Jones (Llanefydd) a Robert Davies (Llansannan) sydd bellach yn yr Inffirmari. Mae'n dda cael adrodd fod Thomas Evans (Llanfair), Gwenfyl Williams ac Alun Pierce (Llanefydd) wedi cael dod adre o'r ysbyty. Hyderwn y pob un ohonynt yn profi daioni'r Arglwydd yn eu cynnal a'u nerthu, a chyflwynwn hwy, a phawb arall o'r Ofalaeth sydd heb fod cystal eu hiechyd y dyddiau hyn, i ofal yr Arglwydd.

I ddod

- Cyfarfod o **Gwrdd Chwarter** Annibynwyr Cyfundeb Gorllewin Dinbych a Fflint nos lau, Mawrth 31ain am 7.00 yn Eglwys Crist, Abergele. Yn dilyn y materion busnes, ceir cyflwyniad gan y Parch. Casi M. Jones ar y cwrs 'Alpha'. Croeso cynnes i unrhyw un sydd â diddordeb i fynychu'r cyfarfod.
- Cyfarfod o **Bwyllgor Cenhadol Chwiorydd Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn Ffestri Capel Mawr, Dinbych nos lau, Ebrill 14eg am 7.30.
- **Gŵyl Gristnogol Llanw** yng Nghei Newydd, Ebrill 25ain-29ain. Mwy o wybodaeth ar y wefan: www.llanw.org

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair - ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536, neu i Aneurin - ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102 erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 20^{fed} Mawrth 2011

"Myfi yw'r wir winwydden..." (Ioan 15:1)
- dyma fydd y testun heno yn Oedfa'r Fro - yr olaf o'r gyfres "Myfi yw".

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Sut 'da chi'n dod ymlaen hefo'r wyna tybed? Rhai bron â darfod erbyn hyn mae'n siŵr ac eraill yn rhyw ail-gychwyn! Dyma'r cyfnod mwya di-gwsg a phrysur i lawer teulu. Pethau pwysig eraill yn gorfod cael eu rhoi o'r neilltu er mwyn canolbwyntio ar y tymor wyna, ac edrych ymlaen at yfory.

"Yr Arglwydd yw fy mugail" meddai'r salmydd (Salm 23), a dywedodd Crist hefyd: "Myfi yw'r bugail da. Y mae'r bugail da yn rhoi ei einioes dros y defaid." (Ioan 10). Medrwn ddeall hyn yn hawdd – mae angen aberthu tipyn i ofalu am y defaid a'r ŵyn!

Yr aberth mwyaf yw ein hamser. Yna mae'r gost, sef cyfri'r colledion a buddsoddi yn yr enillion. Mae porfa dda ac iechyd y praidd hefyd yn gofyn am fuddsoddiad - ac yn gofyn am sylw parhaus hefyd - ymhell wedi i'r 'tymor' wyna ddod i ben. Mae'n fy nharo i nad oes y fath beth â 'thymor' wyna – mae hi'n 'full time job'! Mae'n fy nharo i hefyd bod mwy nag arian a phres yn cael ei aberthu i'r gwaith o ofalu am y praidd a bod calon ac enaid ynghlwm wrth amaethyddiaeth. Mae bugeilio yn alwedigaeth!

Pan mae Iesu yn disgrifio ei hun fel 'Bugail Da' mae'n dweud yr un peth amdano'i hun. Mae'n cyfri ei waith o ofalu amdano fel 'galwedigaeth' ac mae'n rhoi ei holl galon ac enaid i'r gwaith. Cymaint felly nes y mae disgrifiad ohono yn 'tywallt ei enaid i farwolaeth' er ein lles – ac yn ein lle ni. Ond dydi hi ddim yn gorffen yn y fan yna chwaith! Mae hi yn 'full time job' i'r Iesu o hyd. Wedi marw trosom – yr aberth mwya erioed – ac wedi atgyfodi, mae bellach yn gweddio trosom yn y nef. Nid yw ei eiriolaeth yn pallu – ddydd na nos!

Mae gofal Duw yn llwyr a diflino ond, fel y defaid a'r ŵyn, nid ydym ni'n ymwybodol o'r gofal sydd drosom yn aml. Ydi defaid yn gallu bod yn ddiolchgar? Ydyn nhw'n medru dweud 'diolch' rhywsut? Dwn i ddim, ond rwy'n siŵr y medrwn ni o leiaf ddweud 'Diolch' wrth Dduw ac wrth Iesu'r Bugail da. Mae dweud 'diolch' yn lle da i gychwyn, ond diolch â'n holl galon ac â'n holl fywyd yw y nod.

Os yw gofal Duw drosom mor llwyr a llawn, beth am i ni hefyd ofalu am ein hunain? Esgeuluso fy ngofal am fy enaid fy hun a wna i yn rhy aml. Dwi'n gallu gwneud lle i bethau eraill a rhoi amser a blaenoriaeth iddynt – yn union fel ffermwr yn rhoi heibio pob peth yn ystod tymor wyna – ond esgeuluso'r peth a ddylai gael y flaenoriaeth go iawn sef darllen Gair Duw, gweddio a chyd-addoli.

Beth am ddod i'r oedfaon heddiw i geisio prawf o ofal Duw ac i ddangos bod ceisio Duw yn flaenoriaeth gennym? Gwrando am lais y Bugail a chymryd mantais o'i ddarpariaeth yn fwyd a diod i'n heneidiau. Cryfhau er mwyn i ninnau hefyd fedru gofalu am ein gilydd.

Croeso i oedfaon y dydd felly a bydded i ni gael profiad o'r newydd heddiw o ofal bugeiliol Duw ei Hun.

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma
- **Dosbarth Derbyn** yn Ffestri Capel Groes o 11.30-12.30.
 - Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- Llun
- **Grŵp genod blynnyddoedd 7-11** yn y Granar yn Llansannan am 4.30.
 - Grwpiau **Adnabod** Aneurin ac Elen yn cyfarfod am 8.00
- Mercher
- **Darganfod Cristnogaeth** yn Ffestri Cefn Meiriadog am 7.30.
 - **Sei@** yn Nhan y Graig am 7.30.
- Iau
- **Cyfarfod Plant** yn Llanefydd am 3.15.
 - **Astudiaeth Feiblaidd** dan arweiniad Tom Williams yn Llanefydd am 7.30
- Sul nesaf
- **Dosbarth Derbyn** yn Ffestri Capel Groes o 11.30-12.30.
 - Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Llanfair a Cefn Meiriadog

- Sul yma
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir yr Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf
- Bydd Meirion yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Ar ddechrau'r oedfa, bydd cynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn dod i gynnal pleidlais ddirgel er mwyn dewis dau/ddwy aelod (sydd ddim yn flaenoriaid) i gynrychioli Capel Cefn Meiriadog ar y Pwyllgor Bugeiliol. Yn ogystal, bwriedir tynnu llun o holl aelodau Capel Cefn Meiriadog gyda'n cyn-weinidog. Cynhelir yr Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Llansannan

- Sul yma
- Bydd Meirion yn arwain oedfa am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul y plant am 10.00 a'r oedolion am 11.10.
- Iau
- Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf
- Bydd y Parch Hywel Edwards yn arwain oedfa am 10.00. Ar ddechrau'r oedfa, bydd cynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn dod i gynnal pleidlais ddirgel er mwyn dewis dau/ddwy aelod (sydd ddim yn flaenoriaid) i gynrychioli'r eglwys ar y Pwyllgor Bugeiliol. Cynhelir Ysgol Sul y plant am 10.00 a'r oedolion am 11.10.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma
- Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Saron am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cyd-redeg. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 a bydd Cyfarfod Gweddi am 2.00.
- Sul nesaf
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00. Ar ddechrau'r oedfa, bydd cynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn dod i gynnal pleidlais ddirgel er mwyn dewis dau/ddwy aelod (sydd ddim yn flaenoriaid) i gynrychioli Capel Peniel ar y Pwyllgor Bugeiliol. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel a Saron am 10.00.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma
- Bydd Steffan Morris yn arwain oedfa yn Nhanyfron am 2.00.
- Sul nesaf
- Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd Eang y Chwiorydd yn Nantglyn am 2.00. Ar ddechrau'r oedfa, bydd cynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn dod i gynnal pleidlais ddirgel er mwyn dewis dau/ddwy aelod (sydd ddim yn flaenoriaid) i gynrychioli Capel Nantglyn ar y Pwyllgor Bugeiliol.

Henllan a Groes

- Sul yma
- Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd Eang y Chwiorydd yn Henllan am 10.30 a bydd cinio ysgafn i ddilyn. Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd Eang y Chwiorydd yn Groes am 2.00. Bydd Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00, ond gyda phlant y ddwy eglwys yn cyfarfod **yn Groes am 10.00.**
- Sul nesaf
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 10.00. Ar ddechrau'r oedfa, bydd cynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn dod i gynnal pleidlais ddirgel er mwyn dewis dau/ddwy aelod (sydd ddim yn flaenoriaid) i gynrychioli Capel Henllan ar y Pwyllgor Bugeiliol. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00.

Llanefydd a Cefn Berain

- Sul yma
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 10.00. Bydd Ysgol Sul yn Llanefydd am 11.15 a hefyd yng Nghefn Berain am 11.15.
- Sul nesaf
- Bydd Meirion yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Ar ddechrau'r oedfa, bydd cynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn dod i gynnal pleidlais ddirgel er mwyn dewis dau/ddwy aelod (sydd ddim yn flaenoriaid) i gynrychioli Capel Llanefydd ar y Pwyllgor Bugeiliol. Cynhelir yr Ysgol Sul yn Llanefydd ac yng Nghefn Berain am 10.00.